**Cwestiynau Llafar y Cynulliad wedi'u Cyflwyno ar 3 Mai i'w hateb ar**

**17 Mai 2001**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

I Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant a Chwaraeon

**1 Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A all wneud datganiad ar y ffigurau ymwelwyr i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. (OAQ11403)

**2 Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd o dan ei hystyriaeth mewn perthynas â'r Comisiynau Ffilm Rhanbarthol. (OAQ11462)

**3 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gynlluniau sydd ganddi i ddatblygu gweithgareddau'r Comisiynau Ffilm Rhanbarthol yng Nghymru. (OAQ11447)

**4 Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y Cynulliad. (OAQ11476) **TYNNWYD YN OL**

**5 Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A fydd y Gweinidog yn comisiynu ymchwil i ganfod yr effaith ar amgueddfeydd eraill yng Nghymru yn sgil y penderfyniad i roi mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. (OAQ11414) [W]

**6 William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch tîm hoci iâ'r Cardiff Devils. (OAQ11411)

**7 Val Feld (Dwyrain Abertawe);** A fydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd gyda chyrff perthnasol ynghylch defnydd posibl o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer darpariaeth chwaraeon yng Nghymru. (OAQ11483)

**8 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gynrychiolaeth a fydd gan Gymru ar OFCOM yn sgil sefydlu'r fframwaith rheoleiddio newydd drwy'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddarlledu a chyfathrebu.

**9 Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer yr ymwelwyr i'r Pwll Mawr ers cyflwyno mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. (OAQ11465)

**10 Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau diweddar y mae wedi'u cael ynghylch cyflwr cae Stadiwm y Mileniwm. (OAQ11444) **TYNNWYD YN OL**

**11 Peter Law (Blaenau Gwent);** Pa gefnogaeth mae hi'n ei rhoi i sefydliadau garddwriaethol cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ11471)

**12 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd tuag at sicrhau y bydd lleihad yn y lefel o fiwrocratiaeth yn sgil ailstrwythuro Cyngor y Celfyddydau (OAQ11486) [W]

**13 Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A fu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i Amgueddfeydd ac Orielau Cymru yn sgil rhoi mynediad am ddim iddynt gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'n gynharach eleni. (OAQ11401) **TYNNWYD YN OL**

**14 Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd i arddangos celf genedlaethol yn y Gogledd. (OAQ11445)

**15 Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar oblygiadau ariannol y polisi datganoli wrth ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru. (OAQ11490)

**16 Karen Sinclair (De Clwyd);** Sut y mae cyflwyno mynediad am ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru wedi effeithio ar niferoedd ymwelwyr. (OAQ11409)

**17 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa strategaeth a ddefnyddir i hyrwyddo rhagoriaeth yn y byd chwaraeon yng Nghymru. (OAQ11472)

**18 Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A yw hi wedi ystyried creu Tasglu Pêl-droed i Gymru. (OAQ11460)

**19 Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A all wneud datganiad ar y cymorth a roddir i'r celfyddydau yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ11402) **TYNNWYD YN OL**

**20 David Melding (Canol De Cymru);** Pryd y bydd y weinyddiaeth yn sefydlu gwobr y Cynulliad ar gyfer Ysgol Artistig y Flwyddyn. (OAQ11479)

**21 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch y posibilrwydd o wneud Stadiwm y Mileniwm yn lleoliad parhaol ar gyfer Cwpan yr FA. (OAQ11407)

**22 Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Ganolfan Mileniwm Cymru. (OAQ11458)

**23 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A all y Gweinidog gadarnhau ei chefnogaeth, o ran egwyddor, i ddatblygu cyfleusterau a phrosiectau sinema yn y gymuned mewn ardaloedd difreintiedig. (OAQ11464)

24 **Elin Jones (Ceredigion);** Faint o swyddi newydd fydd yn cael eu creu yn dilyn y broses o ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru. (OAQ11485)[W]

**25 Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad byr ar bwysigrwydd darlledu a chyfathrebu i fywyd diwylliannol Cymru. (OAQ11493)**TYNNWYD YN OL**

**26 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** A all egluro sut y bydd OFCOM yn gweithio ac yn ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y ddeddfwriaeth darlledu a chyfathrebu arfaethedig. (OAQ11489)**TYNNWYD YN OL**

**27 Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y gall arian y loteri helpu Cynghorau i wella parciau lleol. (OAQ11443)

**28 Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i gynorthwyo dyfodol y diwydiant Cyhoeddi Llyfrau yng Nghymru. (OAQ11461)

**29 Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw newidiadau o ran blaenoriaethau a wnaeth yn ei phortffolio o ganlyniad i Glwy'r Traed a'r Genau. (OAQ11457)

**30 Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y weinyddiaeth sefydlu Oriel Genedlaethol o Gelfyddyd Fodern. (OAQ11481)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**1. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Faint mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ei wario bob blwyddyn ar ailblannu ar ôl torri coed yn llwyr. (OAQ11468)

**2. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaethpwyd unrhyw astudiaethau penodol cyn penderfynu dynodi safleoedd ym Mathri, Sir Benfro, yn rhai ar gyfer profi cnydau a addaswyd

yn enetig. (OAQ11417)

**3. Elin Jones (Ceredigion);** A all wneud datganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda MAFF ynglyn ag ailstrwythuro'r diwydiant ffermio yng Nghymru. (OAQ11497)

**4. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch profi cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru. (OAQ11500)

**5. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar lansio 'Farming Connect'? (OAQ11436)

**6. Elin Jones (Ceredigion);** A all wneud datganiad ar gynnydd gwaith y Grwp Gorchwyl a Gorffen i adfywio'r diwydiant amaethyddol yn dilyn clwy'r traed a'r genau. (OAQ11505)

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A all roi braslun o'i strategaeth tymor hir ar gyfer adfywio'r diwydiant amaethyddol, y mae argyfwng clwy'r traed a'r genau presennol wedi effeithio'n ddwys arno. (OAQ11507)

**8. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynglyn â sefydlu cynllun porthiant ar gyfer argyfyngau yn y byd amaeth yng Nghymru yn y dyfodol. (OAQ11418) **TYNNWYD YN OL**

**9. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff gyflwyno strategaeth tymor hir i hwyluso adferiad y byd amaeth yng Nghymru yn dilyn yr achosion o glwy'r traed a'r genau. (OAQ11431) **TYNNWYD YN OL**

**10. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog lunio 'Gweledigaeth Cefn Gwlad' ar gyfer Cymru. (OAQ11470)

**11. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglyn ag argyfwng clwy'r traed a'r genau. (OAQ11498)

**12. David Davies (Sir Fynwy);** A gynhelir adolygiad o'r gweithdrefnau yn adran amaethyddiaeth y Cynulliad yn sgil argyfwng clwy'r traed a'r genau. (OAQ11435)

**13. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i adfywio'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru yn gyflym. (OAQ11494)

**14. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** O'r da byw a gynhyrchir ar ffermydd Cymreig, pa gyfran sy'n cael eu lladd a'u prosesu yng Nghymru. (OAQ11438) [W]

**15. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** A wnaiff ddatganiad ar ddatblygiad Cwmni

Cig Cymru?

**16. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A ydyw wedi derbyn ceisiadau oddi wrth y Bwrdd Ymyrraeth i ddefnyddio safle tirlenwi Penhesgyn ar gyfer cael gwared â chyrff anifeiliaid sydd wedi’u lladd o dan y Cynllun Lles Da Byw (Gwaredu). (OAQ11440) [R]

**17. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i galluogi ffermwyr ailstocio’u ffermydd ar ôl argyfwng Clwy’r Traed a’r Genau. (OAQ11496)

**18. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A all y Gweinidog ddweud wrthyf sawl gwaith y mae wedi arfer ei bwerau o dan Reoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001. (OAQ11453)

**19. William Graham (Dwyrain De Cymru);** Pa fesurau y bydd y Gweinidog yn eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod cynnyrch amaethyddol a chynnyrch llaeth Cymru yn adennill y gydnabyddiaeth gyffredinol a fu iddynt o ran eu hansawdd a safon eu cynhyrchu. (OAQ11474)

**20. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ynghylch rôl cwmnïau cydweithredol yn y byd amaeth yng Nghymru. (OAQ11463)

**21. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y camau a gymerwyd tuag at drefnu cyfarfod nesaf y grwp Dyfodol Ffermio er mwyn trafod a diffinio dyfodol amaethyddiaeth Cymru yn y tymor hir. (OAQ11475)

**22. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all wneud datganiad ar y cynigion i gyfyngu ar symud da byw. (OAQ11509) **TYNNWYD YN OL**

**23. Alison Halford (Delyn);** Pa fesurau a gaiff eu cymryd i wella hyfforddiant teuluoedd ffermio yng ngogledd Cymru, yn enwedig o ran arallgyfeirio. (OAQ11433)

**24. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ystyried galw cynhadledd Ewropeaidd ynghylch cyfyngu cnydau a addaswyd yn enetig, i’w chynnal yng Nghymru gyda rhanbarthau eraill yr UE sydd â dyheadau tebyg o ran y mater hwn. (OAQ11510)

**25. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cynnal gyda grwpiau pysgota a chynrychiolwyr y maes ynghylch dyfodol pysgota yng Nghymru. (OAQ11477)

**26. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A ddefnyddir lladd-dy Welsh Country Foods yn y Gaerwen ar Ynys Môn i ladd anifeiliaid o dan y Cynllun Lles Da Byw (Gwaredu). (OAQ11437) [R]

**27. David Davies (Sir Fynwy);** A gynhelir adolygiad o'r modd y mae'r Bwrdd Ymyrraeth yn gweithredu yng Nghymru. (OAQ11469)

**28. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A all roi adroddiad ar y camau a gymerwyd i ddatblygu mart Caerfyrddin. (OAQ11419) **TYNNWYD YN OL**

**29. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa rywogaethau o goed sydd wedi'u plannu ar hyn o bryd gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, ac ym mha gyfrannau y mae'r gwahanol rywogaethau hynny. (OAQ11454)

**30. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cynnal gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch profi cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru. (OAQ11499)